Dolennau yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang – beth sy'n cysylltu gwisgwr a gweithiwr

Defnyddwyr ac athletwyr

Mae dillad chwaraeon yn hanfodol i athletwyr a rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, felly mae'n rhaid iddyn nhw eu prynu – ond mae miloedd o bobl ifanc dros y byd i gyd hefyd yn gwisgo dillad chwaraeon ac enw brand arbennig arnyn nhw. Mae'r farchnad yn cynyddu bob blwyddyn.

Yr adwerthwyr

Mae siopau yn mynnu cael cyflenwad cyson o gynlluniau newydd mewn dillad chwaraeon i fodloni'r farchnad gynyddol – yn arbennig ymysg pobl ifanc. Mae'n well ganddyn nhw roi archebion bach, cyson fel bod angen llai o le storio ac er mwyn bodloni'r galw am ffasiynau newydd.



Brandiau dillad chwaraeon byd-eang

Mae cwmnïau dillad chwaraeon mewn gwledydd cyfoethog fel UDA, Japan a'r Almaen yn gwario miliynau ar hysbysebu a hyrwyddo. Dydy'r cwmnïau sydd â'r brandiau arbennig ddim yn berchen ar unrhyw ffatrïoedd, oherwydd mae'n rhatach contractio pobl eraill i wneud y gwaith cynhyrchu. Eu blaenoriaeth nhw yw elw – mae'r cyfranddalwyr yn disgwyl hyn.

Prynwyr brandiau dillad chwaraeon byd-eang

Gall prynwyr sy'n cael eu cyflogi gan y brandiau fforddio chwilio'r byd, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Maen nhw'n chwilio am ffatrïoedd mewn mannau lle mae'r costau yn isel, ac sy'n gallu gwneud y cynnyrch yn rhad a'i dosbarthu'n gyflym. Gall prynwyr newid neu hyd yn oed ddileu archebion yn ddirybudd.

Cyflenwyr canol y gadwyn

Weithiau, bydd prynwyr brandiau yn defnyddio asiantau a chwmnïau masnachu i isgontractio ffatrïoedd i gynhyrchu eu dillad chwaraeon. Mae rhai o'r cwmnïau hyn yn gwmnïau rhyngwladol eu hunain.

Gweithwyr y ffatrïoedd dillad chwaraeon

Mae ffatrïoedd dillad, mewn gwledydd tlawd fel arfer, yn cyflogi gweithwyr am oriau hir ar gyflogau isel. Mae'r ffatrïoedd hyn yn wynebu llawer o gystadleuaeth am gontractau. Mae'n rhaid iddyn nhw gynnig prisiau isel i gwmnïau, ac felly gadw eu costau eu hunain i lawr. I gyflenwi archebion, mae ffatrïoedd yn gorfodi gweithwyr i weithio oriau goramser hir.

Gweithwyr y ffatrïoedd dillad chwaraeon

Merched ifanc o bentrefi tlawd yw'r gweithwyr mewn ffatrïoedd dillad chwaraeon fel arfer. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cael cyflogau isel iawn. Mae ffatrïoedd yn aml yn camddefnyddio hawliau sylfaenol y gweithwyr wrth geisio cyflawni gofynion llym y brandiau, gofynion sy'n aml yn afresymol.

Isgontractio

Weithiau, bydd ffatrïoedd sy'n cyflenwi'r dillad yn isgontractio ffatrïoedd eraill i wneud gwaith iddyn nhw. Mae amodau gweithwyr yn y ffatrïoedd hyn hyd yn oed yn waeth.

Edrych Tu ôl i'r Logo © Oxfam 2004

Dolennau yn y gadwyn i gyflenwi dillad chwaraeon—o'r siopwr i'r gweithiwr

Darllenwch bob cam a cheisiwch ateb y cwestiynau.

Dolen Un—Siopwyr ac athletwyr

Mae dillad chwaraeon yn hanfodol i athletwyr a rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, felly mae'n rhaid iddyn nhw eu prynu—ond mae miliynau o bobl ifanc ar draws y byd hefyd yn hoffi dillad chwaraeon sydd â logos arnyn nhw.

C ***Pam ydych chi'n meddwl bod y dillad chwaraeon arbennig hyn mor boblogaidd?***

Dolen Dau—Y siopau

Mae siopau yn mynnu cael cyflenwad cyson o gynlluniau newydd mewn dillad chwaraeon i fodloni'r farchnad gynyddol—yn arbennig ymysg pobl ifanc. Mae'n well ganddyn nhw roi archebion bach yn aml.

C ***Pam ydych chi'n meddwl bod siopwyr eisiau cael ffasiynau newydd o hyd?***

Dolen Tri—Brandiau dillad chwaraeon

Mae cwmnïau brandiau dillad chwaraeon mewn gwledydd cyfoethog yn gwario miliynau ar hysbysebu a hyrwyddo. Maen nhw'n trefnu i ffatrïoedd mewn gwledydd eraill wneud y cynnyrch.

C ***Pam ydych chi'n meddwl bod cwmnïau brandiau dillad chwaraeon yn defnyddio ffatrïoedd nad ydyn nhw'n berchen arnyn nhw i wneud eu dillad chwaraeon?***

Dolen Pedwar—Prynwyr y cwmnïau brandiau dillad chwaraeon

Mae prynwyr sy'n cael eu cyflogi gan y brandiau dillad chwaraeon yn chwilio'r byd am ffatrïoedd mewn gwledydd tlawd sy'n gallu gwneud gwaith o ansawdd da yn rhad, a'i ddosbarthu'n gyflym. Maen nhw'n cynnig contractau iddyn nhw i wneud dillad ac esgidiau i'w cynlluniau nhw.

C ***Sut mae prynwyr y cwmnïau yn cael dillad chwaraeon wedi eu gwneud am bris isel?***

Dolen Pump—Ffatrïoedd mewn gwledydd tlawd

Mae ffatrïoedd dillad mewn gwledydd tlawd yn cyflogi miloedd o weithwyr i wnïo dillad ac i wneud esgidiau. Dydyn nhw ddim yn gwerthu'r pethau yma'n syth i'r siopau, ond yn eu gwneud i gwmnïau tramor. Mae'r archebion yn mynd i wahanol fannau ar draws y byd.

C ***Sut ydych chi'n meddwl y gall ffatrïoedd wneud y mwyaf o arian?***
Beth maen nhw'n gallu ei wneud er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cwblhau archebion mewn pryd?

Dolen Chwech—Gweithwyr yn y ffatrïoedd

Merched ifanc sy'n cael cyflogau isel iawn yw'r gweithwyr mewn ffatrïoedd dillad chwaraeon fel arfer. Maen nhw'n gweithio mewn amodau gwael ac maen nhw'n cael eu gorfodi i wneud goramser.

C ***Beth wyddoch chi am amodau gweithwyr mewn rhai ffatrïoedd?***
Pam ydych chi'n meddwl bod yr amodau hyn mor wael?

Stori Mara

Mae Mara yn ferch 25 mlwydd oed sy'n gweithio mewn ffatri yn Cambodia, yn gwnïo dillad i gwmni mawr. Symudodd o'i phentref yn y wlad i chwilio am waith yn y brifddinas, Phnom Penh, i gynnal ei mam a'i chwe brawd a chwaer, ar ôl i'w thad farw. Dyma a ddywedodd Mara wrth ymchwilwyr am ei bywyd yn y ffatri:

'Mae ein bos yn gofyn i ni weithio'n gyflymach, gwnïo'n gywir, a chyrraedd y targedau. Fy nharged i yw 120 o drowsusau yr awr. Os ydw i'n llwyddo i wneud hyn, fe fydda i'n ennill rhwng 70c a 80c. Yn fy niwrnod gwaith arferol mae'n rhaid i mi wnïo 960 o barau. Os nad ydw i'n cyrraedd y targed yma, bydd fy monws misol o £2.70 yn cael ei gwtogi. Rydw i hyd yn oed yn peidio â mynd i'r toiled fel fy mod i'n gallu cyrraedd fy nharged. Pan fyddwn ni eisiau mynd i'r toiled yn ystod oriau gwaith, rhaid i'r bos stampio ein cardiau cynhyrchu.

'Mae goramser yn dechrau am 4 o'r gloch y prynhawn ac yn mynd ymlaen tan 6 o'r gloch y nos. Weithiau fyddwn ni ddim yn stopio tan 8 o'r gloch y nos. Os bydda i'n gweithio mor hwyr â hynny, mae arna i ofn y tywyllwch. Mae llawer o'r *motodups* (tacsis motobeic) yn gofyn am gael mynd â mi adref. Dydw i ddim eisiau mynd gyda nhw, felly rydw i'n rhedeg yn ôl i'm stafell.

'Os ydw i'n gweithio'r shifftiau goramser i gyd, fe fydda i'n cael tua £33 i £35 y mis. Os nad ydw i'n gwneud hynny, fe fydda i'n cael tua £30. O'r arian yma, rydw i'n gwario £2.70 ar rent am fy stafell ac yn anfon rhwng £5.40 a £10.85 i'r teulu. Mae'r gweddill yn mynd ar fwyd a moddion. Fedra i ddim cynilo dim o'm cyflog.'

Edrych Tu ôl i'r Logo © Oxfam 2004

Taflen gyflwyno

Mae tîm cenedlaethol Linopia i fod i ymddangos yn eu cit chwaraeon BigShot newydd, ond mae'r gweithwyr yn ffatri StitchUp yn anhapus oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi i weithio hyd yn oed yn hirach nag arfer i wneud cit newydd y tîm. Maen nhw wedi cael hen ddigon ar yr amodau gwael, ac wedi cael llond bol. Mae nhw'n meddwl y gallan nhw ddefnyddio ymddangosiad tîm cenedlaethol Linopia ar y teledu i gael cyhoeddusrwydd rhyngwladol i'w sefyllfa. Mae gorsaf deledu lloeren wedi gwahodd y grwpiau canlynol i drafod amodau gweithwyr StitchUp ar y teledu, ac i weld beth y gellid ei wneud: **rheolwyr a gweithwyr StitchUp, prynwyr BigShot, cyfarwyddwyr Sgidiau a Siorts** (cadwyn dillad chwaraeon) a chynrychiolwyr o undeb Dros y Gweithwyr. Mae BigShot yn ofni cyhoeddusrwydd gwael.

Ni yw grŵp o chwaraewyr allweddol

Ein hochr ni o'r stori yw ...

Credwn mai dyma ddylai ddigwydd nesaf ...

Credwn fod ... yn gwneud pethau yn anodd i ni oherwydd ...

Credwn mai cyfrifoldeb ... yw gwneud amodau'n well i'r gweithwyr oherwydd ...

Cardiau rôl chwaraewyr allweddol

Gweithwyr ffatri StitchUp

Rydych chi'n gweithio yn ffatri StitchUp yn Linopia yn gwneud dillad chwaraeon i'w gwerthu dramor.

- Rydych chi'n ennill tua £35 i £40 y mis, ond dydy hynny ddim digon i fyw arno.
- Mae'n rhaid i chi weithio'n gyflym am oriau hir; cewch ddirwy am wneud camgymeriadau.
- Rydych chi'n aml yn teimlo'n sâl oherwydd bod ffatri StitchUp mor boeth, mor swnllyd ac wedi ei llygru gymaint gan y cemegau sy'n cael eu defnyddio.
- Dydych chi ddim yn cael egwyl lawn hyd yn oed i fynd i'r toiled.
- Rydych chi'n cael eich gorfodi i ddweud wrth arolygwyr y ffatri bod yr amodau yn iawn.
- Mae arnoch ofn cymryd rhan yn undeb Dros y Gweithwyr rhag ofn i chi gael eich galw yn un sy'n achosi helynt ac yna gael eich diswyddo.

Cyfarwyddwyr Sgidiau a Siorts

Rydych chi'n gyfarwyddwyr cadwyn fawr o siopau dillad chwaraeon. Rydych chi yn Linopia ar gyfer cynhadledd, ac yn aros mewn adeilad moethus ar lan y môr.

- Mae siopwyr yn disgwyl i ffasiynau newydd fod ar gael yn y siopau bob amser.
- Mae gennych lawer o gystadleuaeth oddi wrth siopau dillad chwaraeon eraill.
- Mae BigShot yn frand hynod boblogaidd—mae miloedd o bobl dros y byd i gyd, o grwpiau pop i bobl ifanc, yn dotio arno.
- Mae gennych eich staff eich hun i boeni amdanyn nhw. Fedrwch chi ddim poeni am weithwyr eraill.
- Dydych chi ddim am fod â brand sydd ag enw gwael iddo.
- Rydych chi'n poeni y bydd gofynion am welliannau i'r ffatrïoedd yn costio arian ac na fydd siopwyr yn barod i dalu mwy am eu dillad chwaraeon.

Prynwyr ar gyfer BigShot, un o brif frandiau dillad chwaraeon

Eich gwaith chi yw dod o hyd i ffatrïoedd mewn gwledydd tlawd i gael dillad chwaraeon BigShot wedi eu gwneud mor rhad â phosib.

- Delwedd, enw da ac elw BigShot yw eich blaenoriaeth. Mae pawb eisiau gwisgo dillad ac esgidiau BigShot, gan gynnwys pobl gyfoethog ac enwog.
- Rydych chi'n gwybod nad BigShot biau'r ffatri StitchUp, felly nid eich cyfrifoldeb chi yw amodau'r gweithwyr.
- Mae Linopia yn lleoliad pwysig ond gallech ddod o hyd i ffatri mewn gwlad arall i wneud dillad chwaraeon BigShot.
- Mae gan BigShot God Ymddygiad sy'n nodi sut y dylai gweithwyr gael eu trin. Dylai'r ffatri ei weithredu.
- Rhaid i ddillad chwaraeon gael eu gwneud yn gyflym—mae siopwyr yn disgwyl i'r ffasiynau diweddaraf fod yn y siopau.
- Ni ddylai StitchUp a'r ffatrïoedd eraill dderbyn contractau os na fedran nhw eu cyflawni mewn pryd.

Cardiau rôl chwaraewyr allweddol

Undeb Dros y Gweithwyr

Rydych chi'n ceisio cael gweithwyr o ffatri StitchUp i ymuno â'ch undeb, oherwydd rydych chi am eu helpu i gael gwell amodau gwaith.

- Mae'r gweithwyr yn cael eu rhwystro rhag cael yr hawliau sy'n cael eu derbyn yn rhyngwladol, sef ymuno ag undeb, ennill cyflog teg, gweithio wythnos 48 awr a bod â lle diogel i weithio ynddo.
- Mae goramser gorfodol yn erbyn y gyfraith. Mae angen i weithwyr gael contractau addas–yna gallwch drafod ar eu rhan a'u haddysgu am eu hawliau.
- Mae gweithlu bodlon ac iach yn dda i bawb.
- Mae Cod Ymddygiad gan lawer o frandiau, ond yn aml iawn dydy ffatrïoedd fel StitchUp ddim yn trafferthu eu defnyddio.
- Mae'n anodd i chi gael mynediad i'r ffatri ond teimlwch na fydd dim yn newid oni bai fod yr undeb yn gallu helpu'r gweithwyr.
- Rydych chi'n gwybod y gallai gweithwyr gael eu diswyddo, neu gael gostyngiad yn eu cyflog, neu hyd yn oed gael eu curo, am gymryd rhan mewn gweithgarwch undeb.
- Rydych chi'n gwybod bod llawer o bobl o amgylch y byd yn meddwl nad ydy'r diwydiant byd-eang mewn dillad chwaraeon yn cymryd cyfrifoldeb am weithwyr ffatri.
- Rydych chi'n gwybod bod llawer o bobl yn poeni sut mae'r pethau maen nhw'n eu prynu yn cael eu gwneud.

Rheolwyr ffatri dillad chwaraeon StitchUp

Mae'r ffatri hon yn Linopia, gwlad sy'n datblygu.
Rydych chi'n gwneud dillad chwaraeon i BigShot a brandiau mawr eraill.

- Mae'n rhaid i chi gynnig gwneud y dillad i brynwyr BigShot am bris isel, neu fe fyddan nhw'n prynu eu dillad chwaraeon o ffatri arall.
- Fedrwch chi ddim fforddio talu cyflogau uchel na chynnig swyddi parhaol i'r gweithwyr oherwydd byddai'n costio gormod o arian i chi.
- Mae arnoch chi angen i'ch gweithwyr weithio'n galed. Os nad ydyn nhw'n gwneud y dillad chwaraeon mewn pryd, bydd BigShot yn dod o hyd i ffatri arall.
- Nid eich bai chi yw fod y gweithwyr yn ennill cyflogau mor isel. Y rheswm am hynny ydy fod BigShot yn talu prisiau mor isel i chi am y dillad chwaraeon rydych chi'n eu cynhyrchu.
- Gallech golli contract BigShot. Os byddan nhw'n dileu'r contract, bydd pawb yn dioddef.
- Rydych chi wedi clywed bod rhai brandiau a phrynwyr yn talu am welliannau mewn amodau gwaith a chyflogau ond dydy BigShot ddim yn gwneud hyn.

Edrych Tu ôl i'r Logo © Oxfam 2004

Taflen detholiad 1: Gweithwyr ffatri StitchUp

Detholiad A Hysbyseb am swydd sy'n ymddangos yn ardaloedd gwledig Linopia

YN EISIAU ar frys: Gweithwyr ffatri – dewch i wella eich bywyd!

Mae angen merched ifanc sy'n barod i weithio'n galed ar unwaith. Amodau ardderchog i'r ymgeiswyr iawn! Dechrau ar unwaith mewn ffatri ddillad gynhyrchiol a phrysur. Dysgwch sgiliau newydd yn gwneud dillad chwaraeon ar gyfer brandiau enwocaf y byd. Po fwyaf y gweithiwch, y mwyaf a enillwch! Addas i rai 18–25 oed. Agwedd hyblyg yn fantais. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol.

Dewch i Giât A, Stad Ddiwydiannol Linopia a gofynnwch am StitchUp, Uned 34.

Detholiad B Beth mae'r gweithwyr sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiant yn ei ddweud – yn eu geiriau eu hunain

Rydyn ni'n gorfod gweithio goramser diddiwedd yn y tymor prysur, ac yn eistedd yn gweithio yn ddi-baid am 13 neu 14 awr y dydd. Rydyn ni sy'n gwnïo yn gweithio fel hyn bob dydd, rydyn ni'n gwnïo a gwnïo heb stopio hyd nes bydd ein breichiau'n stiff ac yn ddolurus.

Mae'r amgylchedd gwaith yn swnllyd iawn. Dydy'r cyflogwr ddim yn rhoi masgiau na phlygiau clust i ni … fe fyddwn i'n hoffi hawlio gwell amodau gwaith ond dydyn ni ddim yn teimlo y gallwn ni hawlio cyflogau uwch …

Mae gen i lawer o broblemau iechyd: cur pen, dolur rhydd, ffliw stumog, poen cefn, cramp yn y cyhyrau. Mae hyn i gyd yn cael ei achosi gan aer gwael yn y ffatri, gorfod sefyll drwy'r dydd, ac oriau hir heb ddigon o orffwys, bwyd na dŵr.

Taflen detholiad 2: Rheolwyr ffatri StitchUp

Detholiad C Rhybudd brys oddi wrth Mr Jay Dee, Rheolwr StitchUp i oruchwylwyr llawr y ffatri

I sylw: Yr holl oruchwylwyr
Ynghylch: Archeb BigShot

1) 10,000 o ddarnau i'w cwblhau mewn saith diwrnod.
2) Rhaid i BOB gweithiwr weithio oriau goramser – gosod diwrnod gwaith o isafswm o 15 i 16 awr i bob gweithiwr.
3) Diswyddo unrhyw weithwyr sy'n gwrthod, a rhoi staff newydd yn eu lle.
4) Dim amser i ffwrdd o gwbl, ac eithrio amser cinio. DIM absenoldeb salwch.
5) Noder y gall arolygwyr y ffatri ymweld yr wythnos hon, felly dewiswch weithwyr dibynadwy – byddan nhw'n derbyn bonws am ddweud bod eu hamodau'n dda. Bydd raid i weithwyr sy'n rhoi'r argraff anghywir weld y rheolwyr.
6) DIM gweithgarwch gan undebau. Dylid diswyddo rhai sy'n creu helynt.
7) Eich blaenoriaeth – gwneud y gwaith mewn pryd.

Detholiad Ch Rhan o erthygl bapur newydd ar dudalennau busnes *Newyddion Linopia*

'Rydyn ni'n enillwyr ac yn gwneud ein gorau dros Linopia', meddai rheolwr ffatri StitchUp.

Dywedodd Mr Jay Dee, rheolwr StitchUp, wrtha i ddoe ei fod yn ystyried bod y ffatri'n 'beth da' i Linopia. Mae'n falch o gyhoeddi contract diweddaraf StitchUp gyda BigShot i wneud dillad y tîm cenedlaethol.

Dywed ei fod yn darparu swyddi i ferched ifanc uchelgeisiol, sy'n fodlon gweithio'n galed ac sy'n methu dod o hyd i swyddi yn ein hardaloedd gwledig. Maen nhw'n dysgu sgiliau gwerthfawr yn cynhyrchu dillad sy'n enwog dros y byd. A oedd yn meddwl y byddai yn cael problem gyda'r archeb i BigShot? 'Gobeithio na fyddwn ni ddim. Os oes problem, mae'r gweithwyr bob amser yn gallu dod ata i.'

Edrych Tu ôl i'r Logo © Oxfam 2004

Taflen detholiad 3: Prynwyr BigShot

Detholiad D Detholiad o Adroddiad Blynyddol BigShot i'r Cyfranddalwyr

Mae BigShot yn parhau i symud ymlaen yn gyflym, gan wneud elw eithriadol o $183.5m (doleri UDA, sef £100 miliwn). Mae hyn yn newyddion gwych i'n cyfranddalwyr gwerthfawr a'n cyfarwyddwyr. Rydym yn gwybod bod pobl o bob rhan o'r byd yn teimlo'n dda pan wisgant ein brand ni; maent yn rhannu ein cred mewn ffordd iach o fyw ac maent bob amser yn anelu am y gorau! Ac mae ein hymrwymiad i'r gorau yn parhau gyda'n nawdd i rai o dimau ac athletwyr gorau'r byd.

Detholiad Dd E-bost i'r holl brynwyr o Bencadlys BigShot

Instructions

O/From: rheolwyr@bigshot.com Anfon/Sent: 25 Mai 2004
I/To: prynwyr@bigshot.com
Pwnc/Subject: Cyfarwyddiadau

Annwyl Bawb

Croeso i'n holl brynwyr newydd!

Eich gwaith chi yw darganfod y ffatrïoedd gorau i wneud cynnyrch BigShot. Chwiliwch y byd am ffatrïoedd – defnyddiwch e-bost, defnyddiwch y ffôn, ond rhaid i chi gael canlyniadau. Mae gennych flwyddyn i brofi eich hunain!

Ceisiwch gael gostyngiad (o leiaf 10%) ar brisiau. RHAID i archebion fod yn barod mewn pryd. Rhaid i BigShot fod ar y blaen i frandiau chwaraeon eraill; rhaid i siopau fod â'r cynlluniau diweddaraf ar – ac oddi ar – y silffoedd (ac i fagiau siopau'r cwsmeriaid) cyn gynted â phosib!

Pob lwc – eich gwaith chi yw gwneud yn siŵr mai BigShot yw'r gorau!

Yn gywir
A Jones
Prif Weithredwr

Taflen detholiad 4: Undeb Dros y Gweithwyr

Detholiad E E-bost oddi wrth swyddog undeb Dros y Gweithwyr i gydweithiwr

StitchUp Factory

Pwnc/Subject: Ffatri StitchUp Dyddiad/Date: 22/06/04
O/From: julia@drosygweithwyr.org.lp
I/To: ricardo@drosygweithwyr.org.lp

Helo Ricardo

Mae archeb ddiweddaraf BigShot yn broblem. Mae'r gweithwyr yn cael eu gorfodi i weithio goramser eto. Mae'n gwaethygu – y llynedd fe fuon nhw'n gweithio saith diwrnod ar eu hyd tan 4 o'r gloch y bore bob dydd i orffen archeb fawr. Mae'n ofnadwy. Dylai BigShot gymryd cyfrifoldeb am yr effaith mae eu terfynau amser tyn yn ei gael. Mae pobl yn ddynol wedi'r cwbl – fedran nhw ddim gweithio fel peiriannau. Mae'r gweithwyr yn dioddef – dim tâl gwyliau, dim absenoldeb mamolaeth, dim egwyl hyd yn oed i fynd i'r toiled, oriau hir a dim contractau addas. Yr wythnos ddiwethaf cafodd mwy o weithwyr eu diswyddo pan fethon nhw gyrraedd eu targedau.

Cofion, Julia

Detholiad F O bamffled ymgyrchu Dros y Gweithwyr:

Ymgyrch Dros y Gweithwyr

Yn ôl y Corff Llafur Rhyngwladol – *The International Labour Organisation (ILO)* – un o gyrff y Cenhedloedd Unedig, dylai pob gweithiwr gael cyflog teg i fyw arno, dylai fod â lle diogel ac iach i weithio ynddo, cael caniatâd i ymuno ag undeb, gweithio oriau rhesymol yn unig, a chaniatâd i gael absenoldeb mamolaeth.

Mae'r rhain yn safonau llafur sy'n cael eu derbyn yn rhyngwladol. Gellir eu cyflwyno fel Cod Ymddygiad ar gyfer gweithwyr. Nid yw llawer o lywodraethau yn gwneud digon i sicrhau bod brandiau a chyflogwyr yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang yn gwarchod eu gweithwyr. Ewch i www.ilo.org am fwy o wybodaeth.

Edrych Tu ôl i'r Logo © Oxfam 2004

Taflen detholiad 5: Cyfarwyddwyr Sgidiau a Siorts

Detholiad Ff Pwt o newyddion o gylchgrawn clecs y sêr

Y wisg orau . . .

Gwelwyd ein hoff grŵp Hip Hop newydd **Nu trax** ddoe yn gwisgo'r esgidiau rhedeg a'r trowsusau tracwisg diweddaraf, mwyaf ffasiynol. Roedden nhw i gyd hefyd yn gwisgo'r capiau sionc hynny sydd mor boblogaidd.

Mae dillad BigShot yn ddiguro.

Detholiad G Nodiadau arolygydd ffatrïoedd ar ôl ymweliad diweddar â StitchUp

Dyddiad: Rhagfyr 5 '03 Treuliais awr yn edrych o gwmpas.

1. Gwelais y rheolwr, Mr Jay Dee, a aeth â mi o gwmpas y ffatri. Mae'n dweud wrthyf eu bod yn gwneud gwaith i lawer o frandiau gwahanol. Yr ymweliad cyntaf â Linopia – poeth a mwll iawn yma!
2. Chefais i ddim argraff dda o'r ffatri, ond mae'n union fel y lleill rwyf wedi eu gweld yn Indonesia, Morocco, Mexico, ac ati.
3. Y ffatri yn boeth ac yn glòs iawn, a'r awyru yn wael. Peiriannau swnllyd, y cemegau a ddefnyddir ar gyfer lliwio a gludio yn drewi.
4. Wedi ceisio siarad â'r gweithwyr. Roedd y goruchwylwyr am i mi siarad â rhai oedd wedi eu dewis yn arbennig yn unig– rwy'n gwybod yn iawn am y tric hwnnw! Maen nhw'n dweud wrth y gweithwyr beth i'w ddweud! Y tro nesaf, fe fydda i'n dweud wrth Mr Dee y bydda i'n siarad â phwy bynnag rwy'n dewis siarad ag ef!
5. Poeni am y goramser – dylem wneud rhywbeth ynghylch gwahardd gweithio oriau eithafol o hir fel hyn, ond mae Mr Dee'n dweud fod y brandiau yn rhoi rhybudd mor fyr am archebion ac yn gwrthod newid y dyddiadau, felly nhw sy'n creu'r broblem. Rhaid i mi siarad â Mr Dee am roi amser i'r gweithwyr fynd i'r toiled.